

# Addysg a Gwasanaethau Plant: Adolygiad Ôl 16

## Education and Children's Services: Post 16 Review

Adroddiad Interim Mawrth 24 2023  
Interim Report March 24 2023



Adroddiad interim ar ganfyddiadau ac argymhellion ar gyfer Adolygiad Addysg Ôl-16 Sir Gâr

*Mae'r Adolygiad yn parhau, a bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddadansoddi cyn y bydd argymhellion pellach ar gael.*

## Crynodeb Gweithredol

Mae dysgwyr yn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin wedi nodi'r hyn maen nhw'n ei werthfawrogi yn eu profiad addysgol a pha ddarpariaeth a phrofiadau a hoffent ddatblygu ac atgyfnnerthu yn Ôl-16 i'w galluogi i fod yn ffyniannus, yn annibynnol a chael llais wrth ddatblygu llwybrau ar gyfer llwyddiant mewn cyflogaeth a bywyd a bod yn ddinasyddion moesegol gweithredol yn y gymuned leol ac yn ehangach.

## Pwrpas

Dywed Cynllun Busnes Gwasanaeth Addysg a Phlant Sir Gâr fel un o'i phedair thema allweddol y gwaith o greu ysgolion a gwasanaethau cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a lles ac wrth gyflawni hyn yr angen i: 'adolygu ein darpariaeth Ôl-16 i greu darpariaeth gynaliadwy a chwricwlwm sy'n cwrdd ag anghenion ein dysgwyr ac anghenion lleol Sir Gâr'.

## Cyd-destun a Gyrwyr

- Bydd yr ethos cyfannol a pherson wedi'i ganoli yn y Cwricwlwm i Gymru gyda phwyslais ar les ar gyfer annibyniaeth fel sylfaen, yn gweld datblygiadau cyferbyniol yn Ôl-16 sydd eisoes yn digwydd mewn gwaith a'r brifysgol e.e.. gweithio hybrid.<sup>12</sup>
- Cynnydd sylweddol mewn pryderon iechyd meddwl ymhllith pobl ifanc ar ôl y pandemig a mwy o angen am strwythurau perthynol a chymorth arbenigol gyda'r person wedi'i ganoli.
- Gofyniad i gynllunio ar gyfer a datblygu Llwybrau Cymraeg.
- Angen datblygu darpariaeth deg ac i wneud hyn, gwella profiadau a llwybrau galwedigaethol a dileu'r gwahaniaeth rhwng y galwedigaethol ac academaidd.
- Angen datblygu cyfleoedd cydweithio i ddarparu hyn mewn ffordd hyblyg a chynaliadwy.

<sup>1</sup> <https://www.schoolmanagementplus.com/features/can-online-learning-empower-learners-and-liberate-teachers/> Mae'n werth nodi hefyd bod rhywfaint o dystiolaeth yn bodoli y gall dysgu ar-lein/ hybrid yn datblygu hunanddisgyblaeth yn ogystal â chael ei ddyylanwadu ganddo. Mae Dr John Taylor yn dyfynnu astudiaeth a wnaeth 'canfuwyd, er mwyn datblygu sgiliau dysgu hunanreoliad, bod cyfarwyddyd cyfunol yn fwy effeithiol na chyfarwyddyd traddodiadol'. Er hynny, nid yw Taylor yn cyfeirio at sut mae hyn eto'n pwysleisio sut mae'r agwedd berthynol ar ddysgu yw'r agwedd allweddol.

<sup>2</sup> WONK HE, *Learners' perceptions of belonging and inclusion at university*, Chwefror 2022, Pearson

"Mae ymgysylltu â dysgwyr wedi bod yn her i brifysgolion ers amser maith, ond mae'n ymddangos bod yr argyfwng wedi crisiau'r cysyniad o 'berthyn' fel syniad o fframio mwy cynhwysol ac affiliadol. Bydd nifer o brifysgolion yn meddwl yn galed am sut i feithrin yr ymdeimlad hwn o berthyn." Mary Curnock Cook, Cadeirydd, Dysgwr Sefydliad UPP Comisiwn y Difodol, 2021

- Ym mis Hydref 2022 derbyniodd y gweinidog addysg Jeremy Miles AS gan Estyn *Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru* a oedd yn darparu argymhellion sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.<sup>3</sup>
- Mae gan oruchwyliaeth newydd Ôl-16 Ebrill 2024 y 'Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil' pwerau gweithredol dros Ôl- 16 a chylch gwaith i ddatrys y problemau yn adroddiad Estyn uchod.

## **Methodoleg (Gweler Atodiad 2)**

### **Prif ganfyddiadau**

Cafodd sawl thema ei nodi fel y rhai y credai'r dysgwyr y dylai fod yn sylfaen i'r ddarpariaeth yn Ôl-16. Mae'r rhain wedi bod yn sail drafat Egwyddorion Hawl Dysgwyr ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol sydd yn:

- cefnogi datblygiad cyfannol pob dysgwr gan barchu amrywiaeth a beth bynnag fo'u cefndir, iaith neu ddiwylliant;
- sicrhau bod llwybrau Cymraeg yn cael eu datblygu i bawb a'r iaith Gymraeg a diwylliant(au) Cymraeg yn gyffredinol un cael eu harchwilio a'u dathlu;
- wedi'i ganoli ar ethos sy'n pwysleisio perthyn ac yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau ar gyfer cyfathrebu agored, perthnasoedd cefnogol ac ymddiriedaeth trwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu 'llais' pob dysgwr i ymgysylltu'n bwrvpasol â heriau lleol a byd-eang;
- yn cefnogi iechyd a lles dysgwyr, yn enwedig eu hiechyd meddwl;
- yn gynhwysol ac yn deg drwy ddarparu'r ehangder a'r dyfnder ehangaf posibl o ddewisiadau pwnc a llwybrau
- Llwybrau lleol a llwybrau galwedigaethol e.e., prentisiaethau lle bo hynny'n briodol;
- yn hyblyg ac yn arloesol wrth ddarparu dewisiadau opsiynau ehangach trwy gydweithio strategol a defnyddio dysgu hybrid;
- yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol gan leihau'r angen i deithio lle bo hynny'n ymarferol;
- yn cael profiadau ystyrlon yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer datblygu sgiliau'r byd go iawn a chysylltiadau lleol;

<sup>3</sup> **Cwricwlwm 16-19: Adolygiad o'r cwricwlwm 16-19 presennol yng Nghymru 2022. Estyn 2022**

(Nododd Crynodeb Gweithredol yr Adolygiad yn unol â chanfyddiadau'r adroddiad hwn): *Gwelsom wahaniaethau sylweddol yn yr opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr yn eu hardal leol ar ôl iddynt gwblhau Blwyddyn 11. Mae'r opsiynau sydd ar gael hefyd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ddewis iaith a chyrhaeddiad addysgol y dysgwr. Ar y cyfan, nid yw'r trefniadau presennol ar gyfer cynllunio a chyflwyno cwricwlwm yn gweithio'n ddigon da. Nid oes strategaeth genedlaethol glir ar gyfer dysgu 16-19 a gormod o anghysondeb rhwng, ac o fewn, meysydd a darparwyr. Nod sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yw mynd i'r afael â hyn drwy ei ddyletswyddau strategol.*

Yn ogystal, adleisiodd arsylwad arall ganfyddiadau ein hadroddiad: *Gwelsom fod ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o'r dewisiadau sydd ar gael iddynt yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar ansawdd y wybodaeth a'r cyngor a ddarperir iddynt. Roedd gormod o ddysgwyr heb ymwybyddiaeth o gyfleoedd dysgu yn y gwaith fel prentisiaethau.*

- yn cael cyngor a chymorth personol yn yr ysgol isaf ac ym Mlwyddyn 11 ar gyfer opsiynau a llwybrau Ôl-16;
- yn cael cyngor a chymorth personol ym Mlwyddyn 12 a 13 ar gyfer opsiynau a llwybrau Ôl-17-18;
- rhoi llais i ddysgwyr o ran sicrhau newid trwy fforwm dysgwyr cynrychiolwyr etholedig;
- mae ganddi athrawon arbenigol a phenaethiaid bugeiliol gyda rhwydweithiau ar gyfer cymorth a datblygiad parhaus;
- yn cael ei llywodraethu a'i rheoli'n effeithlon ac yn strategol gydag anghenion dysgwyr ar flaen y gad o ran gwneud penderfyniadau.

#### **Y themâu a oedd yn sail i'r egwyddorion hyn:**

1. Perthynas, Perthyn, Lles ac Ethos;
2. Gwell Canllawiau a Sgiliau ar gyfer Annibyniaeth ac am lwyddiant yn academaidd, gwaith a bywyd.
3. Ecwiti drwy fwy o opsiynau Cymraeg
4. Ecwiti drwy ystod eang o opsiynau yn enwedig opsiynau galwedigaethol

Gyda'r data a'r adborth a gafwyd o'r ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac arolygon ar-lein gydag ysgolion uwchradd Sir Gâr fe wnaed y canfyddiadau canlynol:

Nifer o ymatebion i'r arolwg ar-lein wrth grŵp:

	<b>Nifer o Ymatebion</b>
<b>Blynnyddoedd 7-9</b>	<b>894</b>
<b>Blynnyddoedd 10-11</b>	<b>773</b>
<b>Blynnyddoedd 12-13</b>	<b>338</b>
<b>Rhieni</b>	<b>305</b>
<b>Llywodraethwyr</b>	<b>14</b>
<b>CYFANSWM:</b>	<b>2324</b>

**Thema 1:** Perthynas, Perthyn, Lles ac Ethos;

- Roedd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ymdeimlad o gymuned ac agosrwydd o fewn yr ysgol
- Roedd hyn, meddai'r dysgwyr, wedi'i sefydlu trwy berthnasoedd ag athrawon a thiwtoriaid, a'i feithrin a'i ddatblygu trwy weithgareddau allgyrsiol megis chwaraeon a cherddoriaeth.
- O'r 27 grŵp a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, gwnaeth 21 ohonynt osod perthynas gydag athrawon yn eu 6 ffactor pwysicaf i ystyried ôl-16
- Roedd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gallu cael cymorth os oedd ei angen a'i eisiau.
- Roedd y ffactorau yma yn allweddol i'r ysgolion oedd yn cynnig addysg 6ed dosbarth gan mai dyma'r prif resymau dros aros yn yr ysgol.

- Roedd ychydig o ddysgwyr yn teimlo bod pwysau arholiadau wedi cyfuno â'r golled o ddysgu, perthynas a chefnogaeth oherwydd Covid wedi gwneud iddynt golli ymdeimlad o bwrpas a pherthyn. Soniodd rhai sut roedd hyn wedi effeithio ar ymddygiad.

Cwestiwn a ofynnir: Oes yna rywun i chi fynd iddo am gefnogaeth?

<b>Blynnyddoedd 7-9</b>	<b>Nifer o Ymatebion</b>	<b>Canran</b>
<b>Ie</b>	<b>606</b>	<b>68%</b>
<b>Weithiau</b>	<b>208</b>	<b>23%</b>
<b>Na</b>	<b>80</b>	<b>9%</b>

<b>Blynnyddoedd 10-11</b>	<b>Nifer o Ymatebion</b>	<b>Canran</b>
<b>Ie</b>	<b>457</b>	<b>59%</b>
<b>Weithiau</b>	<b>236</b>	<b>31%</b>
<b>Na</b>	<b>80</b>	<b>10%</b>

<b>Blynnyddoedd 12-13</b>	<b>Nifer o Ymatebion</b>	<b>Canran</b>
<b>Ie</b>	<b>250</b>	<b>74%</b>
<b>Weithiau</b>	<b>58</b>	<b>17%</b>
<b>Na</b>	<b>30</b>	<b>9%</b>

**Thema 2:** Gwell Canllawiau a Sgiliau ar gyfer Annibyniaeth ac am lwyddiant yn academaidd, gwaith a bywyd.

- Croesawu mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn ogystal â gwybodaeth am ddatblygiad gyrrfa.
- O'r 27 grŵp a gymerodd ran yn yr ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, gosododd 18 ohonynt gyfleoedd datblygu gyrrfa yn eu 6 ffactor pwysicaf i ystyried ôl-16
- Eisiau cyfre i weithio gyda phrifysgolion, busnes a diwydiant i ddatblygu sgiliau byd go iawn.
- I ran fwyaf o ddysgwyr roedd cyfleoedd uwch gwricwlaidd ar gyfer sgiliau creadigol a meddwl beirniadol fel y rhai a gynigir gan Seren eisiau cyfleoedd i bawb.

- Roedd cyfleoedd uwch-gwricwlaidd fel y rhai a gynigir gan Seren yn cael eu parchu'n fawr ond roedd y mwyafrif eisiau cyfleoedd i bawb.
- Eisiau mwy o gyfleoedd gwirfoddoli yn yr ysgol/gymuned i ddatblygu asiantaeth, sgiliau ac ethos. E.e. mentora
- Dysgwyr iau sy'n awyddus i wybod mwy am sut y gallai llwybrau ac Ôl-16 helpu gyda bywyd a gyrfaoedd hirdymor.
- Teimlai llawer nad oedd y canllawiau ar gyfer opsiynau TGAU/Lefel A yn mynd yn ddigon pell.

Cwestiwn a ofynnir: Disgrifiwch sut le fyddai'r chweched dosbarth perffaith i chi?

Blynnyddoedd 7-9:

- "Lle i ddysgu cymaint â phosib ac i baratoi rhywun ar gyfer hwyrach yn ei fywyd"
- "Siarad am swyddi ac opsiynau yn y dyfodol i helpu i weithio allan beth rydych am ei wneud"
- "Lle mae gennym athrawon da a gwaith da a fydd yn fy helpu yn fywyd."

Blynnyddoedd 10-11:

- "System gymorth dda a'r holl adnoddau sydd eu hangen i mi ddilyn fy ngyrfa yn y dyfodol"
- "Gallu meistri fy sgiliau fydd yn fy helpu yn y dyfodol"
- "Darparu profiad gwaith ar gyfer yr yrfa a ddewiswyd yn y dyfodol"

Blynnyddoedd 12-13 - Cwestiwn a ofynnir: Sut ydych chi'n meddwl y gellid gwella eich chweched dosbarth?

- "Mwy o gefnogaeth wrth benderfynu gyrfa"
- "Mwy o gyfleoedd i'r dyfodol ar wahân i brifysgolion"
- "Helpu'r myfyrwyr i fod yn fwy gweithgar mewn gweithgareddau allgyrsiol y tu allan i'r ysgol. Sefydlu dosbarthiadau meistr, prosiectau academaidd gyda phrifysgolion ac ati ar gyfer pob myfyriwr sydd eisiau mynychu ac nid am ychydig dim ond oherwydd eu bod wedi cael graddau da yn TGAU"
- "Drwy gynnig mwy o gefnogaeth gyda dewis opsiynau i wybod sut byddent yn effeithio ar eich gallu i wneud cais am gyrsiau yn y dyfodol. Hefyd gallai fod yn ddefnyddiol cael diwrnodau blasu yn y pynciau i weld sut brofiad fyddent nhw"

Rhieni - Cwestiwn a ofynnir: Disgrifiwch sut le fyddai'r chweched dosbarth perffaith i chi?

- "Cynnig cymorth byd go iawn i blant sy'n paratoi ar gyfer bywyd o dalu biliau, rheoli arian, gwaith ac ati"
- "Cefnogaeth i ddeall beth sydd o'u blaenau mewn cymdeithas yn ariannol a'r hyn sy'n digwydd yn yr hinsawdd gan nad oes gan lawer ohonynt nhw syniad"
- "Cynnig profiad gwaith"

### **Thema 3:** Ecwiti drwy fwy o opsiynau Cymraeg

- Roedd llawer eisiau mwy o opsiynau Cymraeg.
- Tegwch i ddysgwyr yn ysgolion dwyieithog.
- Roedd llawer eisiau llwybrau Cymraeg mewn ysgolion Saesneg.
- Cymorth i ddysgwyr ar gyfer llwybrau STEM.

### **Thema 4:** Ecwiti drwy ystod eang o opsiynau yn enwedig opsiynau galwedigaethol

- Roedd llawer eisiau mwy o opsiynau..
- Yn enwedig y gwyddorau cymdeithasol a phynciau mwy galwedigaethol 'vocational' a chreadigol.
- Ar ôl trafodaeth mewn un ysgol, a adlewyrchir mewn ysgolion eraill, i aralleirio un grŵp o ddisgyblion chweched dosbarth: *Mae Chweched Dosbarth yn helpu'r disgyblion mwyaf disgrair i ddod yn fwy disgrair sy'n dda ond nid yw'n rhoi'r cyfle hwn i eraill... dylent gynnig mwy o bynciau yn enwedig pynciau galwedigaethol 'vocational' iadael i fwy o bobl gael y cyfle hwn...*
- Byddai'n well gan y rhan fwyaf o ddysgwyr gydweithrediad dysgu hybrid yn hytrach na theithio i ehangu'r dewis o bynciau

Cwestiwn a ofynnir: Disgrifiwch sut le fyddai'r chweched dosbarth perffaith i chi?

Blynnyddoedd 7-9:

- "Amgylchedd dysgu da lle gallwch chi gael cymaint o wybodaeth â phosib."
- "Cael amrywiaeth ehangach o gyrsiau gallwn gymryd rhan yn ddyn nhw"
- "Un sy'n rhoi cymaint o opsiynau â phosib i chi ar gyfer y dyfodol"

Blynnyddoedd 10-11:

- "Amrywiaeth eang o bynciau i ddewis ar gyfer gyrfaoedd yn y dyfodol"
- "Cynnig y pynciau mae gen i ddiddordeb ynddynt ac mae gen i gymuned ysgol dda."
- "Mae ganddo'r holl bynciau y bydd eu hangen ac yn darparu cyfleoedd allgyrsiol"

Blynnyddoedd 12-13 - Cwestiwn a ofynnir: Sut ydych chi'n meddwl y gellid gwella eich chweched dosbarth?

- "Ychwanegu mwy o bynciau i ehangu'r cwricwlwm"
- "Mwy o opsiynau pwnc ac athrawon sy'n dysgu chweched dosbarth yn unig."
- "Mwy o bynciau, Er enghraifft Electroneg neu beirianeg"
- "Mwy o gyfleoedd ac opsiynau i ddewis ohonyн nhw"

Blynnyddoedd 12-13 – Cwestiwn a ofynnir: Pa mor hapus ydych chi gyda'r darpariaethau chweched dosbarth?

<b>Blynnyddoedd 12-13</b>	<b>Nifer o Ymatebion</b>	<b>Canran</b>
<b>Hapus iawn</b>	<b>64</b>	<b>20%</b>
<b>Hapus</b>	<b>213</b>	<b>62%</b>
<b>Anhapus</b>	<b>39</b>	<b>11%</b>
<b>Anhapus iawn</b>	<b>22</b>	<b>7%</b>

Rhieni - Cwestiwn a ofynnir: Disgrifiwch sut le fyddai'r chweched dosbarth perffaith i chi?

- "Un sy'n rhoi cymaint o bwysigrywydd ar bynciau galwedigaethol ymarferol ag y mae'n gwneud ar rhai academaidd. Mae angen gwella lefel y gefnogaeth fugeiliol yn sylweddol hefyd."
- "Cynnal a gwella safonau chweched dosbarth lleol gyda chynnig mwy amrywiol o astudiaethau galwedigaethol ochr yn ochr â phynciau academaidd."

Gyda'r data a'r adborth a gawsom o'r ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â Choleg Sir Gâr, gwnaed y canfyddiadau canlynol:

Darparodd Coleg Sir Gâr grŵp o 16 o ddysgwyr Lefel 3 yn dilyn dyfarniad triphlyg galwedigaethol e.e.. Cyfrifiadura, Peirianneg, Theatr a Pherfformio

- Roedd bron pob un o'r dysgwyr hyn yn bositif iawn am eu profiad gan gynnwys cymorth a datblygiad dysgu a llwybr gyrfa.
- Soniodd rhai o'r dysgwyr hyn eu bod wedi gadael y chweched dosbarth i astudio'r cyrsiau hyn a'u bod yn hapus iawn gyda'r ddarpariaeth a'r ffocws galwedigaethol clir a'r gefnogaeth a oedd, yn eu barn nhw, yn ddiffygol yn y chweched dosbarth yr oeddent wedi mynychu.
- Roedd llawer yn teimlo cysylltiad agos â'u hadran a'r profiadau dysgu a phrofiadau uwch-gwricwlaidd a ddarperir.

Darparodd Coleg Sir Gâr grŵp ffocws o 16 o ddysgwyr Lefel A

- Roedd y mwyafrif yn bositif am y profiadau dysgu a chymorth adrannol ond mewn rhai achosion yn teimlo'n llai fel rhan o CSG fel corff trosfwaol.
- Pan ofynnwyd iddynt, byddai hanner y dysgwyr hyn wedi hoffi dewis chweched dosbarth yn Llanelli, ym mron pob achos ar gyfer y berthynas fugeiliol a pharhad y gallai hyn ei ddarparu.
- Byddai un dysgwr wedi hoffi opsiynau Iaith Gymraeg.

## Cysylltiadau ag amcanion polisi eraill: Gweler Atodiad 4 a 5

Amlygodd asesiad diweddar Les Sir Gaerfyddin rai pethau sy'n gorgyffwrdd â'n hadroddiad interim presennol:

*O ymgysylltu ag ysgolion, mynegodd pobl ifanc eu bod yn poeni'n fawr am COVID-19, newid yn yr hinsawdd, swyddi, tlodi a'r amgylchedd.*

Ar ben hynny, wrth gynnig adborth a chyngor ar yr asesiad hwn gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fe wnaethant dynnu sylw at yr angen hwn i wneud cysylltiadau ar draws meysydd a fydd yn ceisio ymgymryd â'r gwaith wrth i'n hadolygiad fynd ymlaen.

### Argymhellion dros dro

- 1. Sefydlu Grŵp Goruchwyliau Strategol Ôl-16 gan gynnwys cynrychiolaeth o benaethiaid o bob clwstwr a rhanddeiliaid. Bydd clystyrau gweithredol yn eistedd o dan hyn (gweler Atodiad 1 ac 1a).**

Rhesymeg: Mae angen gynllunio'n strategol ac yn lleol yn y tymor byr i ganolig (1-3 oed) i fodloni Hawl i Ddysgwyr a chynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg, galwedigaethol ac opsiynau eraill i sicrhau bod cwricwlwm eang ar gael ar draws y sir wrth greu chweched dosbarth cynhwysol. Mae hyn yn gofyn am oruchwyliaeth strategol er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn defnyddio cydweithio ar gyfer darpariaeth gynaliadwy a hyblyg, ac i sicrhau ansawdd. Bydd y bwrdd hwn yn cynnwys cyflogwr, sgiliau a thalent a chynrychiolaeth prifysgol i sicrhau bod llwybrau a phrofiadau lleol yn cael eu datblygu yn unol â Hawl i Ddysgwyr a'r baromedr sgiliau rhanbarthol. Bydd Coleg Sir Gâr yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r grŵp hwn ac i gefnogi ei strategaeth.

- 2. Dylai hyfywedd ac effeithiolrwydd opsiynau a phrofiadau Post 16 sy'n cael eu rhoi ar wefan y cyngor gael eu harchwilio gan y grŵp strategol a rhanddeiliaid.**

Rhesymeg: Cael safle sy'n caniatáu rhannu gwahanol llwybrau gyda dysgwyr mewn man canolog, a hefyd arddangos lle gallai opsiynau cydweithredol gefnogi dysgwyr wrth ddewis llwybrau.


- 3. Dylid sefydlu Grŵp Pontio Ôl-16 a gweithio ar y cyd â'r Grŵp Strategol i lunio fframwaith trosglwyddo sy'n gynhwysol ac sy'n sicrhau bod y profiadau angenrheidiol yn cael eu darparu a bod cefnogaeth i bob dysgwr wneud penderfyniadau gwybodus.**

Rhesymeg: Sicrhau bod gan bob dysgwr gymorth personol mewn canllawiau llwybrau ledled yr ysgol uwchradd yn cyd-fynd â chwricwlwm Cymru a dylid ei ddatblygu i sicrhau tegwch. Ar ben hynny, mae'r Adolygiad Ôl-16 yn parhau mewn lleoliadau amgen ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac mae canfyddiad hyd yma bod yn rhaid cynnal a datblygu'r gefnogaeth a ddarperir cyn 16 i sicrhau bod y dysgwyr hyn, sy'n aml yn ein rhai mwyaf bregus, yn gallu cyflawni eu potensial.


**4. Dylai trafodaethau pellach ar gyfeiriad hir dymor Ôl-16 yn Sir Gaerfyrddin gael eu cynnal gyda'r holl randdeiliaid.**

Rhesymeg: i sicrhau ein bod yn ystyried ffyr dd eraill ymlaen i gwrdd â Hawl Dysgwyr yn y hir dymor. Mae hyn yn cynnwys yr angen i drafod sut y gellir cynllunio ar gyfer llwyddiant WESP yn Llanelli a'i wireddu yn Ôl 16. Dylai hefyd gynnwys trafodaethau pellach ar newid effeithiol gan nodi'r dirwedd yn genedlaethol. Y bwriad yw cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion o'r rhain yn Haf 2023.

**Atodiad 1:** Goruchwyliaeth strategol gyda'r bwriad o ddatblygu cydweithio ar gyfer Hawl i Ddysgwyr dros 3 blynedd? Cynrychiolwyr o bob clwstwr. Pob clwstwr i ddatblygu model 'lleol'. Coleg Sir Gâr wedi'i wahodd i chwarae rhan ar lefel Strategol a Chlwstwr.



**Atodiad 1a:** Angen Goruchwyliaeth Strategol ar gyfer datblygu'r WESP yn Ôl 16



## **Atodiad 2: Methodoleg**

Gynhaliwyd ymgyngoriadau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ysgolion uwchradd Sir Gâr a Choleg Sir Gâr yng ngaeaf 2022-23 i ddarganfod beth oedd dysgwyr yn gwerthfawrogi yn eu profiad addysgol a sut y gallai hyn ddylanwadu ar eu penderfyniad i ddewis beth a ble i astudio yn Ôl-16.

Defnyddiwyd ontoleg ymddiddan sy'n canolbwytio ar ddarganfod lleisiau gwahanol wrth i ystyr gael ei greu gan wahaniaeth ac nid hunaniaeth (Wegerif 2005), sy'n briodol ar gyfer ymchwil addysgol o'r math a wneir yma: *O safbwyt ymddiddan mae'r gwahaniaeth rhwng lleisiau mewn deialog yn ffurfio ystyr yn y fath fodd fel nad yw'n gwneud unrhyw synnwyr i ddychmygu 'goresgyn' y gwahaniaeth hwn.*

Felly, defnyddiwyd deinamig grŵp ffocws i greu 'lle ymddiddan diogel' i ddysgwyr Bl. 7-13 drafod a phenderfynu beth rodden nhw'n ei werthfawrogi yn ystod eu haddysg a phenderfynu'n ddemocrataidd ar flaenoriaethau astudio yn Ôl-16 (Denscombe, 2017). Gwnaeth hyn, a'r arolwg ar-lein cynnig lleisiau gwahanol a wnaethom ei werthuso er mwyn creu Egwyddorion Hawl i Ddysgwyr ar gyfer datblygu darpariaeth Ôl-16. Cafodd ymatebion ar-lein gan rieni a llywodraethwyr eu gwerthuso hefyd. Ar ben hynny, defnyddiwyd holiadur gan ei fod yn darparu anhysbysrwydd, gan annog atebion gonest (Marshall, 2005), ac mae Punto (2015) yn argymhell dull cymysg, yn enwedig pan fydd holiaduron yn cael eu cynnwys i gynyddu effeithiolrwydd data.

Yna defnyddiwyd Egwyddorion Hawl i Ddysgwyr i werthuso'r 'status quo' a modelau llywodraethu a strategol gwahanol gyda'r Gweithgor Penaethiaid cyntaf a oedd yn cynnwys penaethiaid o'r ysgolion â chweched dosbarth a chynrychiolydd o ysgolion 11-16 Llanelli i werthuso'r ddarpariaeth yr ydym ni fel awdurdod yn cael ei hariannu amdano trwy ein grant Ôl-16 yn y lle cyntaf. Gwnaethom hefyd werthuso'r modelau ffug gan ddefnyddio Matrics Llesiant yr awdurdod (Gweler Atodiad 3).

## **Ystyriaethau Moesegol**

Gofynnwyd i ysgolion ddewis dysgwyr â lleisiau o gefndiroedd a chyd-destunau amrywiol a chyda ADY felly roedd grwpiau ffocws yn gynrychiolaeth ac yn adlewyrchu llu o brofiadau. Yn wir, cyfrifoldeb ymchwilwyr yw ceisio'r farm a mynd ati i gynnwys plant mewn ymchwil sy'n effeithio arnyn nhw (Harcourt a Conroy, 2011). Mae'r syniadau hyn yn cefnogi erthygl 12 o'r UNCRC o ran barn plant (UNICEF, 1990): cydnabod, parchu a deall dewis iaith, llais a barn dysgwyr yn agwedd sylfaenol ar yr ymchwil hon (Powell et al., 2013).

## **Cyfngiadau'r dull hwn**

Roedd un cynrychiolydd yr adran addysg yn arweinydd Ôl-16 ac mae'n bosibl ei fod wedi dal rhywfaint o ragfarn anymwybodol; fodd bynnag, roedd y cynrychiolydd arall yn darllen ar gyfer ei PhD ac roedd yn gallu tynnu sylw at unrhyw feysydd posibl am ragfarn.

Roedd trafodaethau'n llwyr agored gan eithrio o bosib lle'r oedd uwch arweinwyr yn bresennol mewn rhai achosion yn seiliedig ar amrywiaeth o ymatebion.

### Atodiad 3: Matrics Hawl i Ddysgwyr:

Darpariaeth	Esiampi	Naratif Cwrdd? - Cwrdd Yn Rhannol? - Nid yw'n Cwrdd?	Canlyniad
Mae'r ddarpariaeth yn canolbwntio ar ethos sy'n pwysleisio perthyn ac yn seiliedig ar ddatblygu sgiliau ar gyfer cyfathrebu agored, perthnasoedd cefnogol ac ymddiriedaeth trwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu 'llais' pob dysgwr i ymwned yn bwrpasol â heriau lleol a byd-eang;	Llais y Dysgwr? Cyfleoedd i gymryd rhan yn yr ysgol a'r gymuned? Hyfforddiant mentora? Tiwtora? Eisteddfod? Cerddoriaeth a chwaraeon ac allgyrsiol eraill?	Cwrdd	Sawl enghraift ar draws yr ysgolion
Cefnogi iechyd a lles dysgwyr, yn enwedig eu hiechyd meddwl;	Pennaeth ymroddedig i'r chweched? Cwnsela? Gwybodaeth a chymorth ar gyfer gwella eich lles eich hun ac iechyd ac eraill?	Cwrdd Yn Rhannol	Mae rhai ysgolion wastad â chwnselydd ar y safle, eraill ddim.
Ehangder a dyfnder ehangaf posibl o ddewisiadau pwnc a llwybrau	30 pwnc? 5 Galwedigaethol? Gwyddorau Cymdeithasol? Cymraeg? ITM? Cerddoriaeth a Chelf?	Cwrdd Yn Rhannol	Mae rhai ysgolion yn cwrdd oherwydd cydweithio, ond nid yw'r rhai nad ydynt yn cydweithio yn cwrdd
Llwybrau'r Gymraeg	Datblygu opsiynau Iaith Gymraeg ym mhob ysgol? Datblygiad Cymraeg Cyntaf ac Ail.	Nid yw'n Cwrdd	Mae rhai ysgolion yn cwrdd, ond nid yw eraill
Llwybrau lleol e.e. prentisiaethau lle bo'n briodol; RLSP a chysylltiadau â chyflogaeth.	Cysylltiadau â'r Academi Gofal? Gyrfaedd galwedigaethol RLSP?	Nid yw'n Cwrdd	Mae rhai ysgolion yn cwrdd, ond nid yw eraill

Yn hyblyg ac yn arloesol wrth ddarparu dewisiadau opsiynau ehangach trwy gydweithio strategol gan ddefnyddio dysgu hybrid ar gyfer sgiliau a dysgu a chyflogaeth yn y dyfodol.	Tystiolaeth o sicrhau datblygiad cynaliadwy trwy ddefnyddio technoleg hybrid; datblygu sgiliau hybrid dysgwyr ac athrawon?	Cwrdd Yn Rhannol	Rhai ysgolion yn cwrdd oherwydd cydweithio
Yn gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn ariannol gan leihau'r angen i deithio lle bo hynny'n ymarferol;	Yn defnyddio hybrid yn lle teithio lle bo hynny'n ymarferol?	Cwrdd Yn Rhannol	Rhai ysgolion yn cwrdd oherwydd cydweithio
Yn cael profiadau ystyrlon cysylltiedig â gwaith ar gyfer datblygu sgiliau byd go iawn;	Profiadau WRE ôl-16?	Cwrdd Yn Rhannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pryderon am waith papur</li> <li>- Dim digon yn cael ei gynnig</li> <li>- Gormod o ad-hoc</li> </ul>
Yn cael cyngor a chymorth pontio personol yn yr ysgol isaf ac ym Miwyddyn 11 ar opsiynau a llwybrau Ôl-16;	Trafod llwybrau ôl-16 ac opsiwn chweched dosbarth o'r ysgol isaf? Cyngor pontio pwrpasol ar bob cam?	Cwrdd Yn Rhannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Angen mwy drwedd o flwyddyn 7</li> <li>- Gormod o ad-hoc</li> </ul>
Yn meddu ar athrawon arbenigol a phenaethiaid bugeiliol gyda rhwydweithiau ar gyfer cymorth a datblygiad parhaus;	DPP arbenigol a hunanwerthusiad o'r ddarpariaeth Ôl-16?	Cwrdd Yn Rhannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Pennaeth y 6ed dosbarth</li> <li>- Cwrs Safon Uwch CBAC</li> </ul>
Yn cael ei llywodraethu a'i rheoli'n effeithlon ac yn strategol gydag anghenion dysgwyr ar flaen y	Llywodraethu cadarn ar gyfer tegwch a chynaliadwyedd?	Nid yw'n Cwrdd	Rhai ysgolion yn gyfarwydd â model llywodraethol rhwng 3 ysgol

gad o ran gwneud penderfyniadau.			
-------------------------------------	--	--	--

#### **Atodiad 4: Nodiadau ar gyfer drafft y Matrics Lles - Aros am adborth pellach**

Nodiadau Drafft ar gyfer Adroddiad Asesu Effaith Integredig: parhau

**Lles:**

<b>Ffordd o weithio</b>	<b>Sut mae'r cynnig hwn yn dangos ei fod wedi ystyried hyn?</b>	<b>Pa dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gefnogi'r farn hon</b>
<b>Hirdymor</b>	model cynaliadwy sy'n gweithio i ddysgwyr ei angen; Cynllun 3 blynedd	cyfarfodydd gyda phenaethiaid; ymgynghoriadau ysgolion; Arolwg ar-lein
<b>Ataliad</b>	lles/iechyd meddwl; cynaliadwy	cyfleoedd i bob dysgwr; datblygiad sy'n canolbwytio ar yr unigolyn;
<b>Integreiddiad</b>	Yn adeiladu ar y berthynas a'r lles presennol	Arolwg ac ymgynghoriadau
<b>Cydweithio</b>	Sylfaen o'r hyn a wneir; Darpariaethau/Arbenigedd o safon	gydweithio ar draws ffiniau - prifysgolion, busnesau, bwrdd iechyd, S4C ac ati.
<b>Cyfranogiad</b>	Prifathrawon, blynnyddoedd 7-13, rhieni, penaethiaid 6ed dosbarth, llywodraethwyr, ADY	Arolwg ac ymgynghoriadau

**Iaith Gymraeg:**

Anghenraig	<b>Ydy'r cynnig yn effeithio ar y safonau canlynol</b>
Cyfleoedd i bobl defnyddio'r Gymraeg	Datblygiad WESP dros dro

**Dyletswydd economaidd-gymdeithasol:**

Anghenraig	
<b>Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sydd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn?</b>	
<b>Ydych chi wedi ymgysylltu â'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad?</b>	

<b>Ydych chi wedi ystyried cymunedau a llefydd o ddiddordeb?</b>	Ie, ysgolion a chymuned ehangach
<b>Beth yw prif effeithiau'r cynnig?</b>	Cynrychiolydd o'r holl ddysgwyr
<b>Sut y gellid gwella'r cynnig fel ei fod yn lleihau anghydraddoldebau o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?</b>	Dewis ehangach o bynciau
<b>Beth yw'r effaith debygol ar y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac effeithiau pellach ynghylch rhyngblethedd?</b>	Cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg

#### Hawliau'r Plentyn:

<b>Anghenraíd</b>	<b>Pa dystiolaeth sydd wedi ei defnyddio i gefnogi'r farn hon?</b>	<b>Pa gamau y gellir eu cymryd i leddfu unrhyw effeithiau negyddol neu gefnogi unrhyw effeithiau cadarnhaol?</b>
<b>A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith (uniongyrchol neu anuniongyrchol) ar blant a phobl ifanc?</b>	Ie	-Addasu i ddysgu annibynnol -Teithio
<b>A yw'r fenter wedi ei dylunio/gynllunio er lles plant a phobl ifanc?</b>	Ie	Cysylltu gyda disgylion -Amserlen eang y sir -Cynllunio cynnar i atal hyn

#### Amgylchedd:

<b>Anghenraíd</b>	
<b>A yw'r cynnig yn effeithio ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau'r sir?</b>	Cyfyngu teithio
<b>A yw'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ymrwymiad CSG i fod yn awdurdod lleol carbon net-sero erbyn 2030?</b>	-Cyfyngu teithio -Ddim yn codi canolfan newydd
<b>A yw'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gydnerthedd y Sir ar effeithiau presennol ac effeithiau'r dyfodol ynglŷn â newid hinsawdd?</b>	-Cynnal ôl troed carbon yn hytrach na'i gynyddu

**Goblygiadau:**

<b>Oes yna unrhyw oblygiadau uniongyrchol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r cynnig hwn?</b>	
<b>1. Cyfreithiol a Rheoli Risg</b>	Hybrid, teithio, diogelu-warchod
<b>2. Cyllid, Caffael, TGCh ac Asedau Corfforol</b>	
<b>3. Staffio</b>	Ydy – amserlen
<b>4. Marchnata a Chyfryngau</b>	Adroddiad ar yr hyn mae'r dysgwyr wedi ei ddweud
<b>5. Trosedd ac Anhrefn</b>	

## **Atodiad 5**

### **Cysylltiadau ag Amcanion Polisi Eraill**

Amlygodd **Asesiad Llesiant** diweddar Sir Gaerfyddin rai pethau sy'n gorgyffwrdd â'n hadroddiad interim presennol:

*O ymgysylltu ag ysgolion, mynegodd pobl ifanc eu bod yn bryderus iawn am COVID-19, newid hinsawdd, swyddi, tlodi a'r amgylchedd.<sup>4</sup>*

Ar ben hynny, wrth ddarparu adborth a chyngor ar yr asesiad hwn gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fe wnaethant amlygú'r angen hwn i wneud cysylltiadau ar draws meysydd y bydd yn ceisio eu cynnal wrth i'n hadolygiad fynd rhagddo.<sup>5</sup> Yn benodol, mae'r adborth yn tynnu sylw at y berthynas gadarnhaol rhwng yr Iaith Gymraeg a llesiant ond y dirywiad cyffredinol yn y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae sicrhau bod darpariaeth Ôl-16 yn y dyfodol yn cefnogi datblygiad llwybrau Cymraeg ac yn adeiladu ar lwyddiannau presennol, yn enwedig defnydd arloesol Partner Addysg Gymraeg o ddysgu hybrid i dyfu opsiynau Cymraeg ac, yn arbennig, opsiynau galwedigaethol.

Bydd cynyddu opsiynau Cymraeg, lleol a galwedigaethol hefyd yn helpu i'n hatal rhag colli @1000 18-25 yn flynyddol o Sir Gaerfyddin. Mae llawer o'r rhain yn mynd i brifysgol ond rydym yn gwybod o'n hymgyngoriad yr hoffai rhai archwilio aros yn lleol ac eisiau i eraill ffurfio cysylltiadau ystyrlon â darpar gyflogwyr y dyfodol. Yn wir, mae llwybr a chyfarwyddyd gyrfa mwy strwythuredig sy'n canolbwytio ar y dysgwr ar adegau pontio yn agwedd bwysig arall ar wella profiadau Ôl-16. Mae ecwiti yn fater Ôl-16 sy'n cael ei achosi'n aml gan gynnig cwricwlwm cul felly er mwyn sicrhau bod dysgwyr o bob cefndir yn cael cyfle cyfartal yn y cwricwlwm, a rhaid cael cefnogaeth i wneud y ddarpariaeth mor gynhwysol â phosibl.

Mae'n rhaid i'r angen i sicrhau sgiliau ar gyfer cyfleoedd economaidd gwyrdd sy'n datblygu'n gyflym fod yn rhan o'r strategaeth sgiliau a dysgu galwedigaethol hon: mae ehangu a dyfnhau gwaith gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Dysgu Rhanbarthol yn strategaeth allweddol ar gyfer cyflawni hyn. Amlygir sgiliau digidol hefyd, ac mae dysgu hybrid yn strategaeth gydweithredol allweddol arall ar gyfer darparu profiadau a sgiliau ar gyfer astudio yn y dyfodol, gwaith a darpariaeth hyblyg a chynaliadwy. Mae osgoi trafnidiaeth ddiangen yn arwyddocaol i bobl ifanc ar gyfer eu dymuniad personol a'r dyhead cyffredinol ehangach i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Mae gordewdra yn broblem ddifrifol i bobl ifanc yn Sir Gaerfyddin felly rydym yn sicrhau ein bod yn adeiladu ar ein cynigion allgyrsiol gan ysgolion gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd ymarfer corff, iechyd a lles. At hynny, mae angen dull strwythuredig ac ymgynghorol ar sut mae pobl ifanc angen cymorth Ôl-16 ar gyfer eu hiechyd meddwl. Yn ogystal, mae datblygu sgiliau trwy ymgysylltu â materion a gwneud penderfyniadau mewn ysgolion a chymunedau, yn ogystal â chynlluniau gwirfoddoli a mentora yn darparu profiadau Ôl-16 i alluogi pobl ifanc i ddatblygu asiantaeth a pherthyn.

Yn olaf, mae'r Cwricwlwm i Gymru, a newid addysgol ehangach, wedi gweld y ffocws ar ddatblygu'r hyn y gall pob dysgwr ei wneud ac nid yr hyn yr ydym ni am iddynt ei wneud, a thrwy hynny symud i'r cwricwlwm ac addysgeg ar gyfer datblygu asiantaeth ac annibyniaeth drwy ddysgu sydd yn

<sup>4</sup> Asesiad drafft o Les Sir Gaerfyddin Mawrth 2022

<sup>5</sup> Mae'r asesiad yn nodi rhai cysylltiadau rhwng materion, budd o strwythuro'r asesiad yn erbyn oedran. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn cysylltu lles meddylol ac ACE gyda'r gallu i ddatblygu perthnasoedd, cysylltiadau diwylliannol a chyfranogiad ym myd chwaraeon. Ac mae'r bennod 'New Beginnings' yn nodi pwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. I dynnu sylw at un enghraifft o'r wybodaeth feintiol ac ansodol a gyflwynir, mae cysylltiadau a chysylltiadau clir rhwng seilwaith trafnidiaeth, chwarae plant, mynediad at fannau gwyrdd, gweithgaredd corfforol ac iechyd meddwl, a lleihau allyriadau. Fel y dywedwch: 'Un o'r ffyrdd allweddol o fynd i'r afael â lefelau gordewdra mewn plant yw eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol', ac eto mae traffig ar y ffyrdd yn cael ei amlygú fel y prif rwystr i blant rhag chwarae a chymdeithasu gan rieni disgynion blwyddyn 5 a blwyddyn 8. Mae hyn hefyd yn ymwnaed â'ch pwyniant ar ordewdra ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Ac, eich sylw chi bod annog defnyddio'r dulliau teithio glanaf, teithio llesol a chreu mannau gwyrdd trefol yn 'debygol o fod yn allweddol o ran lleihau allyriadau yn y dyfodol', t.106-7 Asesiad drafft o Les Sir Gaerfyddin Mawrth 2022

ystyrlon. Mae hyn yn adlewyrchu ymhellach yr angen i weithio gyda busnes, diwydiant, yr RLSP a phrifysgolion i sicrhau bod gan y cwricwla ddimensiwn diliys lle bo modd. Ac addysg gysylltiedig â gwaith effeithiol sy'n gysylltiedig â hyn.

## Atodiad 6

### Amcanion Polisi: Galw a Chyflawnder Cymdeithasol

Mewn casgliad diweddar o ysgrifau ar gyfeiriadau polisi llywodraeth Cymru ers datganoli dywed yr economegydd Dan Evans mai ‘ffuglen yw naratif hynodrwydd democraidd cymdeithasol Cymru’ ond un sydd, mae’n dadlau, yn parhau fel ‘erthygl ffydd... derbynwyd yn eang gan y dosbarth gwleidyddol Cymreig’. Yn lle hynny, yn ei draethawd ar bolisi addysg Cymru, mae Evans yn datgan, trwy ddilyn polisiau addysg neo-ryddfrydol a fabwysiadwyd yn Lloegr ar gof, ein bod yn wynebu marchnadeiddio cystadleuol yn y pen draw:

‘Mewn byd lle mae popeth yn fesuradwy, mae addysgu ac addysg bellach yn canolbwytio ar gynhyrchu data. Mae ysgolion yn profi plant i olrhain eu cynnydd, ac mae'n rhaid i ysgolion ac athrawon eu hunain gael eu profi i sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae'r diwylliant hwn yn gorfodi ysgolion i gystadlu â'i gilydd...’<sup>6</sup>

Mae Evans yn cydnabod bod y Cwricwlwm i Gymru yn ‘ganmoladwy’ wrth anelu at symud at fodel sy’n seiliedig ar degwch a chyflawnder cymdeithasol ond mae’n besimistaidd yngylch ei effeithiau posibl. Yn hyn o beth, nid yw’n ymddangos bod Evans yn deall y potensial radical i CiG ar y cyd â pholisïau fel Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol seilio newid ar ganlyniad cyflawnder cymdeithasol a pheidio â defnyddio marchnadeiddio fel model ar gyfer sicrhau newid.

Fodd bynnag, o sefyllfa Ôl-16, rydym i raddau helaeth mewn sefyllfa ‘hybrid’ rhwng ymagweddau a dulliau neo-ryddfrydol gan gynnwys cydweithredu sy’n cyd-fynd yn well â chyflawnder cymdeithasol. Mae Estyn yn dadlau dros gydweithio ar gyfer ehangu a gwneud Dewis Dysgwyr cynaliadwy ond ar yr un pryd mae mesurau perfformiad a chystadleuaeth rhwng darparwyr, yn aml ysgolion ac AB neu hyd yn oed ysgolion ac ysgolion yn parhau.

At hynny, mae'r adolygiad hwn yn rhagdybio rhai cysyniadau, yn enwedig y defnydd o ‘ecwiti’, ‘cynaliadwyedd’ a ‘hyblygrwydd’ fel ffyrdd o ddatblygu syniad o'r hyn y dylai dysgwyr gael ‘hawl’ iddo a sut y gellir cyflawni hynny. Fodd bynnag, mae'r ontolegau neu'r disgrysiau sylfaenol y mae'r cysyniadau hyn yn seiliedig arnynt yn niferus ac yn gorgyffwrdd fel y trafodwyd uchod. Os ydym yn ystyried ‘ecwiti’ yn y lle cyntaf, mae'n dibynnu ar y syniad bod addysg yn gweithio mewn ffordd sy'n cydnabod bod gan bob person ‘habitus’ neu stoc o gyfalaf economaidd, cymdeithasol a diwylliannol gwahanol. Fodd bynnag, gellid ystyried bod y syniad o gynnig nifer eang o ddewisiadau opsiwn i ddysgwyr fel ‘defnyddwyr’ yn cyd-fynd â marchnad rydd neo-ryddfrydol sy'n gweld dewis addysg a llwyddiant fel ffordd o sicrhau cydraddoldeb i'r dysgwyr-ddefnyddiwr:

*O dan neoryddfrydiaeth mae systemau addysg wedi'u mandadu i ddatblygu dysgwyr a gweithwyr effeithlon, creadigol sy'n datrys problemau ar gyfer economi sy'n gystadleuol yn fyd-eang gan arwain at esgeuluso ei gyfrifoldebau cymdeithasol a datblygiadol (Olssen, 2009).*

Yn ei beirniadaeth o'r ffordd mae cynyddu'r 'Galw' ar hyd llinellau neo-ryddfrydol am ddatblygu llwybr Cymraeg mewn AB wedi bod yn fethiant enbyd, mae Laura Beth Davies yn nodi:

*Mater sylfaenol sy'n dibynnu ar y galw a dewisiadau unigolion yw nad yw hyn yn ystyried cyd-destun gym y Gymraeg a'r Saesneg. Mae rhoi dewis o gyfrwng iaith i ddysgwyr yn rhagdybio bod y*

<sup>6</sup> Daniel Evans, *Standardising Wales yn The Welsh Way: Essays on Neoliberalism and Devolution*, Golygyd gan, Daniel Evans, Kieron Smith & Huw Williams Parthian 2021

*Gymraeg a'r Saesneg mewn sefyllfa gyfartal yn y dosbarth ac yn y gymdeithas ehangach, a bod y dewis yn un niwtral. Mae'n anwybyddu'r ffaith bod siaradwyr Cymraeg mewn cyd-destun lleiafrifol.<sup>7</sup>*

Mae hyn yn amlwg yn debyg i'n sefyllfa yn Sir Gaerfyddin nid yn unig ym maes amlwg y ddarpariaeth Gymraeg ond yn fwy cyffredinol yn y modd yr ydym yn cynllunio ein darpariaeth yn seiliedig ar Hawliau Dysgwyr, Tegwch, Cynaliadwyedd a Hyblygrwydd. Mae adeiladu ein model Ôl-16 ar y Cwricwlwm i Gymru yn rhagdybio cyfiawnder cymdeithasol a symud oddi wrth 'economi galw' ond nid oes gennym syniad clir eto beth mae arolygiaeth y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o Ôl-16 yn mynd i'w olygu o ran sut y bydd darpariaeth yn cael eu monitro a'u gwerthuso. Yn amlwg, mae synau cadarnhaol wedi dod i'r amlwg gan Estyn yng Nghylch y ffafriaeth i gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y sector AB wedi'i seilio ar fodol galw i raddau a 'graddfa' yn flaenoriaeth yrru ar gyfer sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Gellid hefyd ystyried graddfa ac osgoi dosbarthiadau bach fel ffordd o sicrhau bod profiad y dysgwr yn un cadarnhaol ond gallai symud y tu hwnt i faint dosbarth penodol fod yn anfantais i ddysgwyr ar ryw adeg - amcangyfrifir bod dosbarthiadau yn 'hyfyw' gyda rhwng 8 a 12 o ddysgwyr, ond mae hyn yn dibynnu ar y cyd-destun ac mae hyfywedd yn rhywbeth y gall dulliau hybrid ei gefnogi. Gall hyn hefyd ddibynnu ar y ffaith y gall maint dosbarthiadau pwnc-mawr fod yn fuddiol mewn pynciau fel Theatr a rheirianeg lle mae niferoedd ac offer arbenigol o bosibl yn cyfoethog i'r profiad. Mae'n awgrymu y dylem ystyried sut mae ein hegwyddorion 'Hawl i Ddysgwyr' nid yn unig yn hyrwyddo mwy o ddewisiadau mewn marchnad ond yn hytrach yn ffordd o sicrhau 'cyflenwad' ar gyfer cyflawni cyfiawnder cymdeithasol sy'n cwmpasu anghenion yr unigolyn, y gymuned, cyflogwyr a'r ardal leol. Mae cyfansoddiad darparwr neu lwybr chweched dosbarth neu Ôl-16 yn faes pwysig i'w ddadansoddi gan fod hwn yn fater tegwch pwysig; fodd bynnag, mae'n werth nodi eto bod dysgwr yn gweld perthnasoedd ymddiriedus fel sylfaen ar gyfer profiad ffrwythlon.

Mae'r cysyniad o 'habitus' i'w weld nid yn unig yn egluro, fel y dadleua Laura Beth Davies, sut mae'r sector AB wedi methu â datblygu Llwybrau'r Gymraeg gan ddefnyddio model ochr 'galw' ond hefyd sut y gall chweched dosbarth fod yn fannau lle mae'r academaidd wedi cael ei flaenoriaethu dros y galwedigaethol, gan adlewyrchu'r gwahanol ddisgwyliadau dosbarth cymdeithasol ar gyfer dilyniant Addysg Uwch, er enghraifft, mewn cartrefi dosbarth canol. Mae'n rhaid i ni ystyried sut rydym yn creu'r 'cyflenwad' ar gyfer y Gymraeg a llwybrau galwedigaethol gan ddefnyddio ein model ariannu presennol sy'n cael ei arwain gan 'alw' i adeiladu'n briodol ar y Cwricwlwm i Gymru.

**Dim ond ar lefel sirol y gellir gwneud hyn a thrwy gynnwys yr holl ysgolion a phartneriaid posibl eraill mewn cydweithrediad ystyrlon: mae'r adolygiad wedi dangos yn glir sut mae dysgwr wedi pwysleisio mai perthnasoedd, ethos a pherthyn yw'r hyn maen nhw'n ei werthfawrogi fwyaf. Mae diliysu academaidd yn bwysig ond dim ond yn bosibl ac yn ystyrlon os caiff ei gefnogi gan strwythurau perthynol. Felly, mae'r hyn y mae'r chweched dosbarth yn ei gynnig yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond mae'n rhaid inni ddod o hyd i ffordd o wneud y chweched dosbarth yn deg ac yn gynaliadwy drwy gynllunio strategol a chydweithredol ac nid newid sy'n cael ei arwain gan alw.**

<sup>7</sup> 'There's not much demand for it': evaluating the concept of demand in Welsh-medium and bilingual provision in further education Mai 2021 *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism* 25(1):16 DOI:[10.1080/13670050.2021.1925628](https://doi.org/10.1080/13670050.2021.1925628)  
Prosiect: [Learners' Choices: Increasing the numbers studying through Welsh and bilingually in Further Education \(Dewisiodau Dysgwyr: Cynyddu'r niferoedd sy'n astudio trwy'r Gymraeg ac yn ddwyieithog mewn Addysg Bellach'\)](#) Awduron: [Laura Beth Davies Cardiff University](#)

**Blank Page**

***The Review is ongoing, and more information will be obtained and analysed before further recommendations are forthcoming.***

## **Executive Summary**

Learners in Carmarthenshire's secondary schools have identified what they value in their educational experience and what provision and experiences they want developed and reinforced at Post 16 to enable them to be thriving, independent and have a voice in developing pathways for success in employment and life and be active ethical citizens in the local and wider community.

## **Purpose**

Carmarthenshire's Education and Children's Service Business Plan states as one of its four key themes the creation of strong and inclusive schools and services committed to excellence, equity and well-being and in achieving this the need to: 'review our Post 16 provision to create a sustainable provision and curriculum which meets the needs of our learners and Carmarthenshire's local needs'.

